# HOWELS, WILLIAM (1778 - 1832), offeiriad efengylaidd

**Enw:** William Howels
**Dyddiad geni:** 1778
**Dyddiad marw:** 1832
**Rhiant:** Samuel Howels
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** offeiriad efengylaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd Medi 1778, yn Llwynhelyg, gerllaw'r Bont-faen, Morgannwg, mab Samuel Howels. Addysgwyd ef yn Ysgol yr Eryr yn y Bont-faen, a Choleg Wadham, Rhydychen. Daeth i gyswllt â Dafydd Jones, Llan-gan a bu'n gurad iddo am dymor. Aeth i Lundain ar farwolaeth Dafydd Jones a bu yno'n gurad S. Ann, Blackfriars; dewiswyd ef hefyd yn ddarlithydd S. Antholin, Watling Street. Penodwyd ef yn weinidog capel eglwysig Long Acre yn 1817, ac yno y bu hyd ei farwolaeth ar 18 Tachwedd 1832. Claddwyd ef yn eglwys y Drindod Sanctaidd, Islington. Yr oedd yn bregethwr efengylaidd, huawdl. Cyhoeddwyd ei bregethau yn ddwy gyfrol yn 1834-6.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau

*Y Traethodydd*, 1849, 156-65

Ch. Bowdler, *Sermons, etc., of William Howels with a Memoir* (Llundain 1834), 1834-6

Edward Morgan, *A brief memoir of the late Rev. W. Howels: minister of Long Acre Chapel, London* (London 1854), 1854

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 19498729

Wikidata: Q18672840

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu